# MAWR A MÂN

## gan BRYNLEY F. ROBERTS

Mae'n rhyfedd, mewn byd sy'n prisio mawrdra fel arwydd o werth ac o bwysigrwydd, mai'r bychan sy'n denu mwyaf o sylw ac yn ennyn yr ymateb cryfaf o ryfeddod ym myd llyfrau. Mae'n debyg fod ambell gasglwr rywle â'i fryd ar grynhoi casgliad o'r llyfrau mwyaf eu maint, ond rhaid imi gyfaddef na chlywais am yr un nac am unrhyw drafodaeth neu gatalog o'r cyfryw lyfrau, heb sôn am wasg neu gyhoeddwr a oedd yn ymfalchïo yn eu rhestr o fawrion. Ar y llaw arall, mae nifer o gyhoeddwyr ac argraffwyr sy'n arbenigo mewn cynhyrchu llyfrau bychain, mae lliaws o gasglwyr sy'n ymhyfrydu ynddynt, ac y mae degau o drafodaethau arnynt.


Nid yw'n anodd dyfalu'r rheswm am hyn, wrth gwrs. Does fawr o gamp mewn cynhyrchu llyfr anarferol ei faint. Mae'n wir y gall fod yn her i deipograffydd a dylunydd, gall greu problem i'r rhwymwr i sicrhau nad yw'r cloriau a'r gwnïad yn ymddatod oherwydd y pwysau, ond nid yw'n anhawster dyrys i'r argraffydd. Iddo ef y sialens yw llunio teip bach digon glân i fod yn ddarllenadwy, oherwydd hanfod llyfr yw fod modd ei ddarllen, ac yna gysodi ac argraffu'r print mân; a chan fod y rhain i'w hystyried yn llyfrau gwirioneddol, her arall yw sicrhau glendid a manyldra'r engrafiadau sy'n darlunio'r testun. Mae 'na elfen o orchest mewn llyfr bach nad yw ar gael yn y mawr. Ac ar wahân i hynny, mae apêl y bychan yn un y mae pawb yn ei rhannu. Mae'r bychan yn gallu bod yn bersonol mewn ffordd na all y mawr na'r cyffredin fod, ac mae'n rhyfeddol mor gelfydd a gwych y gall rhwymiadau ac addurn y llyfrau bychain fod.

Mae'n wir fod yna argraffiadau mawr sydd wedi'u bwriadu i greu effaith yn unig am eu bod yn fawr. Dyna'r 'large paper' a gynigid weithiau gan gyhoeddwyr i ddenu prynwyr a oedd yn ymwybod â'u statws neu'n awyddus i arddangos eu cyfoeth, megis y ddau argraffiad (1707) o *Archaeologia Britannica* Edward Lhuyd. 'Y ffedog wen' oedd llysenw *Gorchestion Beirdd Cymru* (1773) ar gyfrif yr ymyl hael, ond nid yw pob copi o'r maint hwnnw. Yn yr achosion hyn maint y tudalen sy'n amrywio, nid maint y teip na'r cysodi, ac oherwydd hynny nid yw'r fersiynau 'large paper' yn llwyddiannus o safbwynt dylunio teipograffig. Mater arall yw dylunio tudalen mawr. Un o'r llyfrau Cymraeg mwyaf ei faint, mae'n debyg, yw *Cyfreithiau Hywel Dda* (neu *Leges Wallicae*) William Wotton (Llundain, 1732), sy'n 16" × 10", ond yn ôl O. Llew Owain mewn erthygl ddiddorol 'Bach ac Od' yng *Nghylchgrawn Y Gymdeithas Lyfryddol Gymreig*, 3 (1929) tudalennau 267-74, un o'r llyfrau mwyaf a welsai ef oedd Esboniad Samuel Clark a John Brown, cyfieithiad John Humphreys, a argraffwyd gan John Painter yn Wrecsam yn 1813, sy'n 18" × 10".

Rhyw gyfuniad o ddylunio bwriadus a'r elfen arddangos yw'r llyfrau bwrdd coffi ac fe ŵyr pob casglwr am anhawster gosod llyfrau anarferol o fawr ar y silff, heb sôn am y broblem o geisio'u darllen. Mae *Parzival* Gwasg Gregynog (1990) yn 18½" × 14" (maint y blociau pren a oedd eisoes ar gael a benderfynodd faint y tudalen), a'r unig ffordd i'w ddarllen yw ei osod ar y ford, neu ar ddarllenfa, a sefyll uwch ei ben.

Arall yw'r problemau sy'n codi gyda'r llyfrau mân. Maent hwythau'n anodd eu silffio gan ei bod yn amhosibl eu gosod ochr yn ochr â'u brodyr normal eu maintioli heb iddynt gael eu mygu a'u sathru dan draed. Yr unig ffordd hollol foddhaol o ddatrys y broblem honno — nid wyf yn ystyried eu cloi mewn bocs yn ffordd waraidd o'u trin — yw prynu câs lyfrau arbennig a ddarperir gan gyhoeddwyr cyfresi llyfrau bychain, neu, gan nad yr un yw maint a siâp pob llyfr bychan, gael saer go fedrus i wneud câs lyfrau bwrpasol ar eu cyfer. Ond pa mor fach yw bychan? Yn Saesneg 'miniature books' yw'r llyfrau mân ac i gael ei dderbyn i'r cwmni dethol hwnnw rhaid i lyfr fod 3" (76 milimedr) neu lai ei daldra. Er mai ffolineb fyddai glynu'n rhy ddeddfol at y rheol honno, yn enwedig wrth ystyried math arbennig o lyfran, sef y bys-lyfr ('finger book') sydd gan amlaf tua 3½" × 1¼", rhaid cael canllaw a safon o ryw fath. Rhaid amau felly ai 'miniature books' go iawn yw'r rhai a gyhoeddwyd tan yr enw hwnnw yn 1993 gan y Folio Society, *The Pied Piper of Hamelin* a *The Lady of Shalott* sy'n 4½" × 3¼".

Wrth ddotio at orchest yr argraffydd, yr arlunydd neu'r engrafiwr, a'r rhwymwr, mae'n hawdd iawn anghofio mai diben hollol ymarferol oedd i'r llyfrau bychain, mân. Y rheswm sylfaenol tros eu cynhyrchu yw er mwyn darparu deunydd darllen personol, yn llyfrau digon bychan i'w cario'n hwylus mewn poced, pwrs neu ysgrepan. Un o hoff ddefosiynau preifat lleygwyr crefyddol diwedd yr oesoedd canol oedd gwasanaeth y Forwyn Fair, ac yn llawysgrif Peniarth 192 mae copi Cymraeg ohono a fwriadwyd, a barnu wrth ei faint, 3⅝" × 2¼", i'w gario mewn poced neu lawes i'w ddarllen pan gâi'r perchennog gyfle o'r neilltu. Mae'n ddiddorol, felly, mai'r llyfran argraffedig cynharaf sydd ar gael yw gwasanaeth Lladin y Forwyn Fair, a argraffwyd yn Napoli yn 1486, 3" × 2". Mae hwn yn crynhoi priod ddiben y llyfranau mân, yn llyfrau darllen personol (barddoniaeth yn arbennig), llyfrau crefyddol (Beiblau, Salmau, llyfrau gweddi, clasuron defosiwn, detholion ysgrythurol), almanaciau o bob math: llyfrau i bobl ddiwylliedig ag amser ganddynt i'w ddefnyddio'n fuddiol wrth deithio, wrth ddisgwyl cwmni, wrth fyfyrio yn yr eglwys, yn y tŷ, yn yr ardd. Llyfrau llenyddiaeth safonol, yn ddramâu, gwaith y beirdd Lladin a Groeg, barddoniaeth Saesneg glasurol, blodeugerddi, nofelau a chwedlau poblogaidd, a defosiynau yw'r llyfranau, ac am mai hoff lyfrau personol ydynt fe'u cynhyrchir yn fynych gyda gofal cywrain ac addurn gain sy'n eu gwneud yn drysorau bychain gyda'r harddaf sydd i'w cael.


THE BOOK OF
COMMON
PRAYER,
AND ADMINISTRATION
OF THE
HOLY COMMUNION,
ACCORDING TO THE USE
OF THE
Church of England:
TOGETHER WITH THE
PSALTER OR PSALMS
OF DAVID,
Pointed as they are to be sung or
said in Churches;
BUT WITHOUT
THE CALENDAR,
OCCASIONAL SERVICES,
AND ARTICLES OF
RELIGION.

Oxford:
Printed at the
University Press.
London: Henry Frowde,
Oxford Warehouse,
Amen Corner.

*Wynebddalen argraffiad bys-lyfr o'r* Llyfr Gweddi Gyffredin. *Dyma union faint y gyfrol, sef 3½" × 1¼". Y mae iddo 600 tudalen.*

Mae yna fathau eraill o lyfranau sy'n fwy uniongyrchol ymarferol, sef y cyfeirlyfrau defnyddiol megis amserlen trenau, prisiau safonol tacsis, amserau'r llanw, geiriaduron, gramadegau (neu 'gywiriaduron'), rhestr o enwau blodau. Am a wn i, disgynnydd y rhain yw'r llyfrynnau blynyddoedd gwinoedd y mae rhai'n hoffi ymgynghori â hwy cyn mentro blasu.

Llyfrau oedolion yw'r rhai hyn oll, ond bwriedir rhai llyfrau bychain ar gyfer dwylo bychain. Mae lliaws o lyfranau plant, yn hwiangerddi lliwgar, storïau difyr a rhai moeswersol, yn ogystal â'r rhai amlwg grefyddol megis casgliadau o benillion ac adnodau. Categori arbennig o lyfrau bychain i blant yw'r rhai a baratoir yn arbennig ar gyfer tai dol.

Tyfodd poblogrwydd y llyfranau'n ddirfawr yn oes Victoria. Datblygodd dosbarth canol darllengar, lledodd addysg a llythrenogrwydd ac yr oedd digonedd o weision a morynion i sicrhau gradd helaeth o hamdden i'w meistri a meistresi i deithio ar drên a llong, i rodianna yn y parc ac i segura yn eu 'drawing-rooms'. Yr oedd angen llenyddiaeth ddyrchafol gyfarwyddiadol ar blant, yn arbennig blant y werin yn yr Ysgolion Sul a'u rhieni yn eu slymiau fel bod y cymdeithasau traethodau crefyddol ac argraffwyr-cyhoeddwyr cydwybodol oll yn cynhyrchu toreth o fân lyfrynnau i ateb galw'r diwygwyr cymdeithasol a chrefyddol.

Yn dechnegol, nid llyfranau bychain tair modfedd fyddai'r cwbl o'r llyfrynnau hyn, ond datblygodd rhai argraffwyr, engrafwyr a chyhoeddwyr gryn arbenigedd yn y grefft o gynhyrchu'r llyfrau mân yn ail hanner y 19fed ganrif a dechrau hon, cwmnïau megis Pickering, Llundain (a'i argraffwyr Corall a Whittingham); Bryce, Glasgow; Darton, Llundain; Eyre & Spotiswoode; Gwasg Prifysgol Rhydychen. O blith y cyhoeddwyr arbenigol y tyfodd y y syniad o greu 'llyfrgelloedd cludadwy' neu 'deithiol' y gellid eu gosod mewn bos yn hwylus, a hefyd y cyfresi o lyfranau unffurf y gellid eu rhoi mewn câs arbennig, megis y Diamond Classics a'r Diamond Poets, Oxford Miniature Editions, y llyfrau Thumb, yn llyfrau gweddi, Beiblau, blodeugerddi, almanaciau amrywiol, dramâu Shakespeare (Allied Newspapers). Mae'r traddodiad hwn wedi parhau ac y mae'r gyfres Midget (geiriaduron, dramâu Shakespeare) yn adnabyddus, fel y mae'r Books of English Verse (Geoffrey Parker).

Deniadol iawn hefyd yw'r adargraffiadau o lyfranau plant oes Victoria megis cyfres Peter Stockham Associates (a argreffir yn Hong Kong) o hwiangerddi Saesneg.

Maint Beibl Saesneg Bryce (Glasgow) yw 1¾" × 1½" a gellir ei ddarllen yn hwylus â chwyddwydr cyffredin; ond perygl yr 'arbenigwyr' yw mynd i rysedd a chystadlu â'i gilydd i greu'r 'llyfr lleiaf yn y byd', llyfrau sydd yn llythrennol yn fân lwch y loriannau. Gwasg Gleniffer (Paisley) sy'n mynd â hi. Maint eu *Three Blind Mice* (1978) a gysodwyd letter-press â llaw, yw 2.1" sgwâr, a dilynwyd